

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Brithdir
Nos Fawrth, Mehefin 19, 2018 am 7:30 o'r gloch.

AGENDA

1. Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau:

3. Datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 15, 2018

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 15, 2018

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/5/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Neuadd Gymunedol Llanbedr ar ddydd Mercher, Mehefin 23 am 7.00yh. Bydd Dilwyn Owen Williams a Dyfrig Siencyn o Gyngor Gwynedd yn bresennol i drafod materion yn ymwneud a chydweithio rhwng Cyngorau Cymuned a Thref a Chyngor Gwynedd, ac yn benodol am drosglwyddo asedau a gwasanaethau.

Amgáu mae Agenda y Cyfarfod Blynnyddol, Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd yn Chwefror 2018, Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a gynhalwyd ar Faes y Sioe Frenhinol, Llanfair ym Muallt ym mis Mawrth 2018, a rhestr o gyrsiau bydd ar gael.

b. Llythyr (23/5/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith torri gwair yn cael ei wneud yn Brithdir ar 15/5/2018 a 25/7/2018, ac yn Llanfachreth ar 15/5/2018 a 25/7/2018. Bydd y gwaith yn cychwyn ar y Cefnffyrdd yna ymlaen i'r Ffyrdd Sirol.

c. Llythyr (26/5/2018) oddi wrth un o ysgrifenyddion Sioe Arddwriaethol ac Amaethol Rhydymain. Maent angen cymorth ariannol.

ch. Llythyr (7/6/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o Reolau Sefydlog newydd 2018.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

1. NP5/54/317B. Ehangu ffin y safle a gosodiad safle diwygiedig ar gyfer rhan o ddatblygiad sydd wedi ei gadarnhau yn flaenorol o dan geisiadau 5/54/317 dyddiedig 02/04/2004 a NP5/54/317A dyddiedig 02/04/2009 er mwyn ail-leoli 6 tŷ annedd. Tir i'r De o Neuadd y Pentref, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (7/6/2018).

2. NP5/54/563. Adeiladu estyniad unllawr yn y cefn. Bryn Derwen, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (7/6/2018).

8. Materion Ariannol

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mai, 2018: £1,137.03.

b. Balans yn y banc ar 29 Mai, 2018: £5,399.82.

c. Galwad ffôn (1/5/2018) oddi wrth Archwilydd Mewnol angen dogfennau'r Cyngor ar 6/5/2018.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

10. Unrhyw fater arall

a. Mae un sedd wag yn Ward Brithdir ac un sedd wag yn Ward Machreth.

b. Emlyn Roberts wedi cael galwad ffôn (17/5/2018) gan breswlydd yn byw fyny heibio Ysgol Aran Hall yn cwyno am y 'visibility' i gyfeiriad Dolgellau wrth ymuno a'r A494 ger tŷ Troedyrhiw. Bore 'ma bu bron iddo gael damwain wrth ymuno ar ffordd fawr. Mae'r broblem yn gyfuniad o lwyni llawn dail yn tyfu yng ngardd Troedyrhiw yn ymyl y wal a railings ar ei phen, a hefyd yn amal iawn mae faniau BT wedi parcio ger y gyfnewidfa ffôn gerllaw. Wrth ymuno ar ffordd gyda lori neu dractor mae cangennau y goeden sydd yn tyfu yn yr ardd yn dal yn broblem i weld, er bod y cangennau isaf wedi euocio. Meddwl y byddai chi yn gwybod pwy i gysylltu gyda yn y Cyngor Gwynedd, gan fod y preswlydd yn wirioneddol boeni y gall y diffyg gwelediad fod yn achos damwain a chysidro fod llawer o ddefnyddio ar y groesffordd dan sylw.

Rhoddyd gwybod (18/5/2018) am y mater i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd.

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc